Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Ffordd Castellau**
**Beddau**
**Pontypridd**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF38 2AA**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 236 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 186 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 32 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 7.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 2.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 30.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/05/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/10/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r pennaeth yn arweinydd egnïol a chydwybodol sy'n dylanwadu'n hynod effeithiol ar yr ysgol a'i chymuned. Ynghyd â'r dirprwy a'r staff, sy'n gweithio'n hynod llwyddiannus fel tîm, mae'n sicrhau bod yr ysgol hon yn darparu cymuned ddysgu effeithiol, gartrefol, deuluol a Chymreig i blant yr ardal. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol iawn sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn dda iawn. Mae staff yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio'r wybodaeth drylwyr sydd ganddynt am eu cynnydd i gynllunio'r camau nesaf iddynt. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn hapus yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac yn eu hannog i roi o'u gorau ym mhopeth a wnânt. Maent yn cynllunio profiadau gwerthfawr a phwrpasol iddynt, sy'n sicrhau eu bod yn mwynhau dysgu ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn barhaus. Mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol, ynghyd â nifer o fedrau eraill. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o fedrau digidol. Yn ogystal, nid ydynt yn annog disgyblion i ddefnyddio a datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach ac mae'n darparu cyfleoedd pwysig iddynt gymryd rhan mewn perfformiadau yn yr ysgol, y gymuned leol ac yn ehangach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau arwain yn aeddfed. Gwnânt hyn trwy gyfrwng yr ystod eang o gynghorau plant sydd gan yr ysgol. Maent yn trafod eu cyfrifoldebau'n hyderus ac yn cynnig rhesymau synhwyrol dros wneud penderfyniadau penodol.

Mae gan arweinwyr berthynas hynod gynhyrchiol â rhieni ac maent yn sicrhau bod ganddynt brosesau cyfathrebu effeithiol â nhw i'w galluogi i godi unrhyw faterion all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Mae llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn briodol, pan fo angen.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ddatblygu pob agwedd o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol

A2 Sicrhau cyfleoedd rheolaidd ac addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai hynny sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac yn gwrando’n astud ar straeon a chyflwyniadau oedolion. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn gwrando â diddordeb ar gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn synhwyrol yn y Gymraeg gan amrywio goslef eu llais, lle bo angen. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau llafar yn fedrus yn y Gymraeg a’r Saesneg. Maent yn cyfathrebu’n effeithiol ac yn cyfrannu’n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth, gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er enghraifft, llwydda disgyblion Blwyddyn 6 i gynnal trafodaeth synhwyrol o blaid ac yn erbyn gosod labeli cynnwys ar becynnau bwyd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar straeon a'u hailddarllen i'w ffrindiau ac oedolion. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn dechrau ymgyfarwyddo â chynnwys llyfrau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i drefnu digwyddiadau yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda rhuglder cynyddol ac yn defnyddio dulliau priodol i adeiladu geiriau sy’n anghyfarwydd iddynt. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Mae disgyblion Blwyddyn 4, er enghraifft, yn cywain gwybodaeth syml fel ymchwilio i hanes diffoddwyr tân drwy’r oesoedd. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn darllen ystod o destunau priodol ac yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol i gefnogi’u dysgu mewn amrywiol gyd-destunau.

Mae medrau ysgrifennu’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn creu marciau gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau ac yn dechrau ffurfio llythrennau a geiriau syml. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn sillafu geiriau syml yn gywir wrth ysgrifennu hanesion am eu cartrefi. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu darnau disgrifiadol a diddorol yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth ailysgrifennu straeon fel Yr Iâr Fach Goch. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, maent yn datblygu eu medrau’n addas gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio ystod o eirfa briodol wrth ysgrifennu. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu i safon uchel yn y Gymraeg a Saesneg. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu dyddiadur personol yn y Gymraeg ac yn rhoi esboniad manwl ar sut mae chwaraeydd recordiau yn gweithio yn Saesneg. Mae’r rhan fwyaf yn cyflwyno eu gwaith yn daclus.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Maent yn cyfrifo’n hyderus yn unol â’u hoed a’u cam datblygiad ac yn cymhwyso’u dealltwriaeth o rif mewn amrywiol gyd-destunau mathemategol fel trin data ac arian, a mesur hyd a phwysau.

Yn y dosbarth meithrin, mae’r rhan fwyaf yn cyfrif gwrthrychau’n hyderus yn yr ardaloedd chwarae, fel nifer y cnau castan mewn bwced. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn trefnu rhifau’n gywir, yn defnyddio amrywiol ddulliau i ddyblu, a datrys

problemau mathemategol syml yn gywir. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd brig yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o werth lle sy’n eu galluogi i gyfrifo’n hyderus. Er enghraifft, maent yn dod o hyd i’r rhif mwyaf maent yn gallu ei wneud o wyth digid penodol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio’u medrau mathemategol yn hyderus mewn gweithgareddau ym meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae’r disgyblion hynaf yn creu rhwydi o wahanol siapiau tri dimensiwn i greu model o adeiladau’r pentref fel rhan o’r thema 'Y Byd Gwaith'.

Mae gwybodaeth y rhan fwyaf o’r disgyblion am e-ddiogelwch yn gadarn. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu llawer o’u medrau digidol yn briodol pan fo’r ddarpariaeth yn caniatáu. Mae mwyafrif y disgyblion ieuengaf, er enghraifft, yn gwneud defnydd priodol o declynnau digidol i greu graffiau i ddynodi lliw gwallt eu cyfoedion. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng am wahanol drychinebau ac ati, a thaenlenni i’w defnyddio i greu graffiau. Fodd bynnag, cyfyng yw gallu disgyblion i drin data a modelu’n ddigidol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn arbrofi gyda deunydd naturiol i greu gludwaith o’u cartrefi a’r rhai hynaf yn gweithio gyda gwahanol ddeunyddiau i adeiladu pontydd fel rhan o’u gwaith ar ddyfeiswyr. Mae llawer yn chwarae offerynnau i amrywiol safonau ac yn perfformio’n gyson o flaen eu cyfoedion ac mewn cyngherddau.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles ac agweddau cadarnhaol y disgyblion at ddysgu yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae bron bob disgybl yn teimlo bod oedolion yn eu parchu a’u trin yn deg. Mae hyn yn cyfrannu’n hynod effeithiol at yr ethos cyfeillgar a chynhwysol sy’n rhan greiddiol o’r gymuned ddysgu. Mae’r cynllun lles, sef ‘Llaw yn Llaw’, yn ddarpariaeth hynod lwyddiannus. Mae’n annog y disgyblion hynaf, er enghraifft, i ofalu am eu cyfoedion ieuengaf wrth eu croesawu i’r dosbarthiadau meithrin a derbyn yn ddyddiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos yr un parch at eraill yn eu dosbarth ac at oedolion yn yr ysgol.

Yn ystod sesiynau dysgu ac amser egwyl, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn ymgymryd â’u tasgau gyda brwdfrydedd, hyder a gwydnwch. Mae’r rhan fwyaf yn dyfalbarhau’n gyson, yn arbennig wrth ddatrys problemau. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio’n dda am gyfnod estynedig wrth adeiladu pontydd symudol mewn gweithdy pensaernïaeth. Os yw disgyblion yn wynebu anhawster â’u tasgau, maent yn trafod â’u cyfoedion gyntaf, cyn gofyn am gymorth gan athrawon.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd sy’n effeithio ar eu lles emosiynol. Mae bron bob un yn gwerthfawrogi cyfraniad yr holl staff i’w lles ac yn datgan eu bod yn gwneud iddynt deimlo’n ddiogel o fewn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth pan fo’i angen arnynt. Mae’r ‘Cwtsh Cysur’ yn hafan werthfawr lle gall staff ddefnyddio’u harbenigedd i gefnogi lles emosiynol disgyblion yn dawel a llwyddiannus. Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel rhag cam-drin corfforol a geiriol ac maent yn hyderus bod oedolion yn ymdrin yn gyflym ag unrhyw achosion honedig o fwlio.

Mae bron bob disgybl yn ymgysylltu'n dda â thasgau, profiadau a syniadau newydd sy'n anghyfarwydd iddynt. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 wedi gweithio'n ddiwyd ar brosiect amgylcheddol llwyddiannus wrth addasu cynefin Comin Llantrisant i ddenu'r pili-pala prin Britheg y Gors yn ôl i'r ardal. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn defnyddio a datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon cadarn. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn llwyddiannus i arweiniad cyson staff wrth iddynt gwblhau eu tasgau. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'w hadborth ac adborth gan eu cyfoedion ar eu hymdrechion mewn gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn eu hannog i ddeall yn union beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo a gwneud cynnydd yn eu medrau.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r angen i fwyta'n iach ac maent yn defnyddio'r wybodaeth i wneud dewisiadau doeth yn eu bywyd bob dydd. Maent yn esbonio'n hyderus pam mae'n fuddiol bwyta byrbrydau iach a pham y dylid osgoi bwydydd sydd â gormod o siwgr a braster. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cadw'n heini. Maent yn mwynhau cymryd rhan yn yr amrywiol sesiynau addysg gorfforol a chlybiau chwaraeon allgyrsiol a gynhelir yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol trwy gymharu bywyd yng Nghymru â bywyd mewn gwledydd fel India a Singapore. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn esbonio gweithredoedd o anghyfiawnder fel rhan o'u gwaith ar hawliau. Er enghraifft, maent yn astudio gwahanol elfennau o hawliau plant y Cenhedloedd Unedig yn fisol. Mae hyn yn eu galluogi i ddangos empathi at eraill a chefnogi amrywiol elusennau, fel Apêl Diwrnod Rhyngwladol Iechyd Meddwl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau arwain yn aeddfed, gyda nifer yn aelodau brwd o amrywiaeth eang o gynghorau ysgol. Maent yn trafod eu cyfrifoldebau yn hyderus ac yn cynnig rhesymau synhwyrol dros wneud penderfyniadau penodol. Maent yn adrodd yn ôl i'w cyfoedion am eu gwaith ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod arweinwyr yn gwrando ar eu barn. Er enghraifft, maent yn cyfrannu ar y cyd i greu rheolau'r dosbarth, sef eu 'Siarter' ar ddechrau bob tymor. Mae llais y disgybl wedi ei sefydlu'n gadarn ac yn cael dylanwad cyson ar waith yr ysgol. Un enghraifft lwyddiannus, sydd bellach wedi gwreiddio ar draws yr ysgol, yw'r modd mae'r 'Criw Cymraeg' wedi addasu cynllun tocynnau iaith i annog pob disgybl i gyfathrebu'n gyson yn Gymraeg.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr holl staff berthynas waith hynod gynhyrchiol â'r disgyblion. Maent yn meithrin amgylchedd ysgogol a difyr iddynt sy'n eu hannog i fwynhau dysgu. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion sy'n eu hannog i roi o'u gorau wrth eu tasgau. Mae'r rhan fwyaf yn modelu iaith yn raenus ac yn annog disgyblion i ddefnyddio Cymraeg lafar gywir yn gyson ac hyderus. Mae'r ysgol yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg a bod yn amlieithog yn llwyddiannus. Gan gydweithio ag ysgolion eraill y clwstwr, mae staff hefyd wedi dechrau datblygu medrau Ffrangeg sylfaenol y disgyblion hynaf. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer datblygu hyn ymhellach yn yr ysgol uwchradd.

Mae staff yn adnabod anghenion addysgol penodol disgyblion yn dda, ac maent yn darparu gweithgareddau pwrpasol i fynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol yn ddiweddarach yn eu gyrfa ysgol sydd heb dderbyn addysg yn Gymraeg yn flaenorol, yn cael sesiynau iaith dyddiol gan athrawes arbenigol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gyflym i'w cefnogi i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm trwy gyfrwng yr iaith.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau gwerthfawr a diddorol i ddisgyblion sy'n sicrhau eu bod yn mwynhau dysgu ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn barhaus. Mae'r cwricwlwm yn eang, yn briodol ac yn adeiladu ar fedrau blaenorol disgyblion yn dda. Mae hyn yn cefnogi'r rhan fwyaf i gaffael gwybodaeth a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda dros amser. Mae athrawon hefyd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r rhan fwyaf o agweddau ar eu cymhwysedd digidol. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu profiadau dysgu eang sy'n sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r ystod lawn o fedrau digidol.

Mae staff wedi gwneud cynnydd da tuag at sefydlu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru trwy arbrofi'n frwdfrydig dros gyfnod, a gwerthuso'i effeithiolrwydd ar y dysgu yn rheolaidd. Erbyn hyn, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n gyson ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol disgyblion i sicrhau bod dilyniant yn eu dysgu wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Un o gryfderau cwricwlwm yr ysgol yw'r modd naturiol mae'n hyrwyddo natur ddiwylliannol a threftadaeth yr ardal leol a Chymru. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth drylwyr am eu cynefin ac ymdeimlad cryf o berthyn i bentref Beddau a'u lle o fewn Cymru a'r byd ehangach.

Mae'r ysgol yn defnyddio teithiau ac ymweliadau i fannau diddorol yn llwyddiannus i gyfoethogi thema'r tymor, i ysbrydoli'r disgyblion ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, mae eu hymweliadau â choedwig leol i gasglu sbwriel a mesur llygredd dŵr yn eu hannog i gymryd perchnogaeth dros ofalu am fyd natur.

Un o rinweddau pennaf yr ysgol yw'r modd mae athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio'u gwybodaeth am gynnydd disgyblion i gynllunio'r camau nesaf iddynt. Maent yn arsylwi arnynt yn barhaus ac yn cywain gwybodaeth am eu dealltwriaeth drwy eu holi'n fedrus tra'n dysgu wrth eu tasgau. O ganlyniad, maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn darparu gweithgareddau addas iddynt sy'n eu cefnogi i wneud cynnydd parhaus. Maent yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig buddiol ac amserol iddynt er mwyn eu hannog i ddeall yr hyn maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb i'r adborth hwn. Mae hyn yn eu cymell i gymryd cyfrifoldeb priodol am eu dysgu eu hunain.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn hafan gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn hynod effeithiol. Mae'n gymuned hapus a gofalgar ac mae ei threfniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn gryfder amlwg. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad a chwrteisi'r disgyblion ac agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf ohonynt at eu dysgu. Mae'r holl staff yn sicrhau bod

disgyblion sydd ag ADY yn cael cefnogaeth dda. Mae hyn yn eu cefnogi i ymgysylltu'n llwyddiannus â'u dysgu a mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol i olrhain a monitro presenoldeb, cynnydd a lles disgyblion, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag ADY. Mae staff yn adnabod anghenion penodol disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth addas iddynt. O dan arweiniad pwrpasol y cydlynydd ADY, mae cynorthwywyr yn cefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus iawn. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau a rhaglenni cefnogi addas yn dda i wella'u lles a datblygu eu medrau sylfaenol. Yn ystod yr ymyraethau lles, mae staff yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn gofod diogel a chefnogol. Mae staff yn cydweithio'n agos â theuluoedd y disgyblion hyn ac yn cysylltu'n dda ag asiantaethau allanol arbenigol, lle bo'n briodol, i'w cynorthwyo. O ganlyniad i fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth yn gyson, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae'n cydweithio'n effeithiol â phartneriaid yn y sector cyhoeddus, fel yr heddlu a'r nyrs ysgol, i gefnogi dysgu a lles disgyblion yn dda. Mae cyfuniad o weithgareddau dysgu a sesiynau gan arbenigwyr yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion sy'n ymwneud â ffurfio perthnasoedd diogel a byw yn iach.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am eu lle yn y gymuned leol a'r byd ehangach. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cydwybodol a sensitif. Mae'r holl staff yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â gwerthoedd, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fwriadus. Mae agweddau moesol a chydraddoldeb yn treiddio'n effeithiol trwy bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol, ac mae'n atgyfnerthu'r diwylliant cynhwysol sy'n bodoli o fewn ei chymuned yn dda. Mae'r staff yn cyflwyno ac atgyfnerthu gwerthoedd ysbrydol, moesol a chymdeithasol cadarnhaol i ddisgyblion yn gyson mewn gweithgareddau dysgu a sesiynau myfyrio ar y cyd.

O fewn sesiynau ysgol gyfan, mae staff a disgyblion yn trafod hawliau plant a sut i fod yn ddinasyddion da o fewn y gymdeithas. Maent yn cyfeirio at erthyglau hawliau plant y Cenhedloedd Unedig a'r angen i drin pawb yn barchus. O ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, gan gynnwys gweithgareddau codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cael cyfle i gyfarfod ag aelod Senedd Cymru'r etholaeth i dynnu ei sylw at faterion amgylcheddol.

Mae'r ysgol yn helpu disgyblion, gan gynnwys y rhai o wahanol grwpiau fel y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, i gymryd cyfrifoldebau a chyfrannu at yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae pob cyngor llais y disgybl yn gwbl gynhwysol ac yn cynnwys aelodau o bob grŵp penodedig o fewn yr ysgol. Mae'r pwyllgorau hyn yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau pwysig am eu bywyd ysgol. Mae athrawon hefyd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion hynaf ddatblygu eu dealltwriaeth o fenter busnes. Er enghraifft, mae Blwyddyn 6 yn creu nwyddau i'w gwerthu yn y ffair Nadolig. Mae hyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o fyd busnes, elw a cholled yn dda.

Darperir cyfleoedd pwysig i ddisgyblion ddatblygu eu hunanhyder drwy gymryd rhan mewn perfformiadau yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, yn ddiweddar, cynlluniwyd cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld ag Opera Cenedlaethol Cymru a pherfformio yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.

Mae athrawon yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion gyflawni eu gwaith i'r safon gorau posibl. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth bob tro'n caniatáu iddynt ddefnyddio a datblygu eu medrau mewn dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion yn gadarn. Mae'r arweinwyr yn cysylltu â'r teuluoedd yn brydlon i drafod unrhyw bryder ac yn defnyddio asiantaethau allanol priodol yn effeithiol, pan fydd angen.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd egnïol sy'n sicrhau bod gweithdrefnau strategol yr ysgol yn gadarn ac effeithiol. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar ddarparu cymuned ddysgu effeithiol, gartrefol, deuluol a Chymreig i blant yr ardal. Mae'n cyfleu'r weledigaeth honno'n glir i'r staff, y disgyblion, y rhieni, y llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned leol.

Mae'r pennaeth, y dirprwy a'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac o'r disgyblion. Maent yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau bod yr ysgol yn hafan ddiogel a chartrefol sy'n rhoi bri ar les ac addysg ei disgyblion. Maent yn meithrin diwylliant diogelu cadarn, ac yn monitro lles a chynnydd yr holl ddisgyblion yn hynod effeithiol. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad y staff yn barhaus i ganmol eu llwyddiannau proffesiynol a'u hannog i wella unrhyw feysydd penodol y cytunir y mae angen eu gwella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso manwl, cynhwysfawr a chadarn. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n uniongyrchol at weinyddu'r gweithdrefnau hyn. Mae'r llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni hefyd yn cyfrannu atynt yn achlysurol. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u seilio ar ystod o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol, ac yn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa gyfredol, ac yn cyfrannu'n benodol at osod blaenoriaethau i'r cynllun gwella. Mae cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gwella hefyd yn gynhwysfawr ac yn anelu at sicrhau gwelliannau yn y meysydd y nodir eu bod yn flaenoriaethau.

Seilir gweithgareddau dysgu proffesiynol staff ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd â'u hanghenion penodol nhw. Mae'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar gynnal a gwella cynnydd a lles disgyblion. Mae'r ffocws diweddar yn cynnwys gwella medrau digidol staff, cynllunio a monitro'r cwricwlwm, a sefydlu dulliau dysgu effeithiol yn yr awyr agored, ymysg eraill. Mae arweinwyr yn monitro effaith gweithgareddau dysgu proffesiynol ar yr addysgu ac, maes o law, ar gynnydd a lles disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i arweinwyr. Maent yn cynnal trafodaethau â staff ac yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i werthuso'r ddarpariaeth a safonau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn eu galluogi i

gyfrannu'n wybodus at drafodaethau penodol i bennu blaenoriaethau strategol i'r ysgol ac i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Maent yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei ddefnyddio'n briodol i hybu'r dysgu a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr berthynas hynod gynhyrchiol â rhieni ac maent yn sicrhau bod ganddynt brosesau cyfathrebu effeithiol â nhw er mwyn eu galluogi i godi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Maent yn rhoi cyfleoedd iddynt fynegi barn am y ddarpariaeth ac yn ymateb yn amserol i'w sylwadau, lle bo'n briodol. Er enghraifft, yn dilyn cais gan rieni, mae staff wedi addasu fformat a chynnwys yr adroddiadau ar gynnydd eu plant. Mae arweinwyr hefyd yn cynnal sesiynau defnyddiol i'w hysbysu am faterion pwysig fel y newidiadau diweddar i'r cwricwlwm ynghyd â gwahanol ffyrdd maent yn gallu helpu eu plant i ddysgu gartref.

Mae gan yr ysgol gyswllt effeithiol iawn â Phartneriaid Addysg Pontypridd, sef ysgolion y clwstwr lleol. Ar y cyd, mae staff yr ysgolion hyn yn cydweithio'n agos i gynllunio gwahanol agweddau o'r cwricwlwm a dulliau priodol i asesu disgyblion, yn seiliedig ar ganllawiau cyfredol. Mae hyn yn sicrhau bod disgwyliadau arweinwyr y clwstwr hwn o ysgolion yn gyson.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   18/12/2023